# PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson a N. Marshallsea.

96 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

97 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2022 a 31 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

98 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

99 TREFNIADAU RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER PENNAETH DATBLYGU CYNALIADWY (ACL) –

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cyflogeion wrth gyflwyno'r adroddiad a oedd yn nodi'r trefniadau recriwtio a dethol a gynigiwyd ar gyfer swydd Pennaeth Datblygu Cynaliadwy (Pennaeth Adfywio a Chynllunio gynt) y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu ar ôl i'r Pwyllgor ei chymeradwyo ac y byddai'r gwaith o lunio rhestr hir yn digwydd ynghyd ag unrhyw asesiadau angenrheidiol o ymgeiswyr cyn llunio rhestr fer. Yna byddai rhestr fer derfynol yn cael ei llunio ar gyfer cyfweliadau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd ymhellach ei bod wedi cael ei hystyried yn amserol i ddiwygio dyletswyddau a theitl y Pennaeth Adfywio a Chynllunio blaenorol gyda'r swydd newydd yn canolbwyntio ar Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd a Natur ac yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau dros Bolisi Trafnidiaeth Strategol a gwasanaethau Cefn Gwlad (gan gynnwys llwybrau troed).

Tynnodd y Cynghorydd Johnson sylw at y ffaith bod cyfeiriad at y Gymraeg yn ddymunol wedi'i hepgor yn y fanyleb person yn ogystal ag, yn ei farn ef, cyfeiriad at ddeddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllunio Cymru ac Amgylchedd Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod wedi cael ei hystyried yn bwysig osgoi rhoi gormod o fanylion yn y fanyleb person ac y cyfeirir at ddeddfwriaeth o'r fath yn y pecyn gwybodaeth a fyddai'n cael ei anfon at ymholwyr.  O ran hepgor y Gymraeg fel agwedd ddymunol yn y fanyleb person, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr fod hyn wedi bod yn y drafft gwreiddiol ond ei fod wedi'i hepgor ar gam yn y fersiwn derfynol, fodd bynnag, byddai'n cael ei ychwanegu cyn hysbysebu'r swydd.

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID cymeradwyo'r trefniadau recriwtio a dethol fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ar yr amod yr ychwanegir y Gymraeg fel agwedd ddymunol yn y fanyleb person.

(2) Y DYLID rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Lleoedd, Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, i fwrw ymlaen gyda'r broses recriwtio hon.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y penodiad yn mynd rhaddo yn unol â gofynion cyfansoddiad y Cyngor.

(2) Caniatáu i faterion gael eu datblygu cyn cam olaf y broses recriwtio.